



Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 10FED MEHEFIN, 2021**

***NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.15YB***

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

**\* NODER \***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**[https://gwynedd.public-i.tv/core//cy\\_GB/portal/home](https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home)**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**[eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd 03/06/21)

# **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

## **AELODAETH (18)**

### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans  
E. Selwyn Griffiths  
Gareth Tudor Morris Jones  
Olaf Cai Larsen  
Mair Rowlands

Steve Collings  
Judith Mary Humphreys  
Huw Gruffydd Wyn Jones  
Rheinallt Puw  
Paul John Rowlinson

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones  
Dewi Wyn Roberts  
[Sedd Wag – Annibynnol]

Beth Lawton  
Elfed Powell Roberts

### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd Dewi Owen

### **Y Blaid Genedlaethol (1)**

[sedd wag]

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

### **Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig**

Anest Gray Frazer	Eglwys yng Nghymru
Colette Owen	Yr Eglwys Gatholig
Ruth Roe	Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Meirionnydd
Karen Vaughan Jones	Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Dwyfor
Manon Williams	Cynrychiolydd Rhieni/Llwyodraethwyr Arfon

### **Heb Bleidlais:**

Dilwyn Elis Hughes	UCAC
Dylan Huw Jones	NASUWT

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2021/22.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2021/22.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION

5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Ebrill, 2021 fel rhai cywir.

## 7. ADDYSG A'R GYMRAEG: GWELEDIGAETH NEWYDD AR GYFER CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI TUAG AT 2032 A THU HWNT

12 - 41

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams**

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

## 8. GRANTIAU COVID I FYD ADDYSG I GYNORTHWYO DISGYBLION

42 - 48

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams**

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

## 9. RHAGLEN WAITH DDRAFFT CRAFFU 2021/22

49

Cyflwyno rhaglen waith ddrafft craffu 2021/22 i'w mabwysiadu.

---

## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 15 EBRILL 2021

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Steve Collings, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths, Judith Humphreys, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Rheinallt Puw, Dewi Roberts, Elfed Powell Roberts a Mair Rowlands.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig) a Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon).

**Swyddogion yn bresennol:**

Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**

*(Adran Addysg)*

Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)  
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)  
Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad)  
Ellen Rowlands (Rheolwr TRAC)

*(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)*

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc)  
Catrin Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd)  
Bethan Eluned Jones (Arweinydd Tim Cymorth – 16-24)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**

Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Economi a Chymuned)  
Nia Gruffydd (Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd)  
Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Freya Bentham, Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd), Karen Vaughan Jones (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor), Dilwyn Ellis Hughes (UCAC) a Dylan Huw Jones (NASUWT).

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen – Cyflawni Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yng Ngwynedd - oherwydd bod ei ferch-yng-nghyfraith yn gyfrifol am gyflwyno'r adroddiad, a bod ganddo gysylltiad teuluol â chwmni Wavehill oedd wedi llunio'r adroddiad yn gwerthuso TRAC ac ADTRAC.

Nid oedd yr aelod o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

#### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2021 fel rhai cywir.

#### 5. CYFLAWNI FFRAMWAITH YMGYSYLLTU A DATBLYGU IEUENCTID YNG NGWYNEDD

Croesawyd yr Aelod Cabinet Addysg a'r Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc, ynghyd â swyddogion yr Adran Addysg a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn gwahodd y pwyllgor craffu i ystyried a yw trefniadau a darpariaethau'r Cyngor yn ddigonol i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu dadrithio gan addysg, neu sydd wedi eu dadrithio gan addysg, hyfforddiant neu waith.

Gosododd y ddau Aelod Cabinet y cyd-destun, gan nodi:-

- Bod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013, yn gyfrifoldeb trawsadrannol.
- Y ceisid barn y craffwyr ar y trefniadau ar gyfer cyflawni gofynion y Fframwaith wedi i arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gyfer prosiectau TRAC ac ADTRAC ddod i ben.
- Bod angen i bawb atgoffa eu hunain yn gyson yn ystod y drafodaeth mai adroddiad am fframwaith oedd hwn, sef y fframwaith o ran sut mae'r Cyngor yn cefnogi plant a phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET).

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Wrth symud ymlaen, ei bod yn bwysig deall llwyddiannau a methiannau'r ddarpariaeth bresennol.
- Y teimlid bod y pwyllgor yn craffu'r mater hwn yn rhy fuan, neu'n rhy hwyr. Roedd y Fframwaith ei hun yn 8 mlwydd oed. Er bod trefniadau'r fframwaith wedi bod mewn lle ers hynny, roedd newid wedi bod yn rhai o'r darpariaethau oedd ynghlwm â hi. Roedd gwaith adolygu rhai o'r darpariaethau ar waith. Hyd yma nododd adolygiad Wavehill o TRAC a ADTRAC fod angen am y math yma o gefnogaeth i bobl ifanc, ac roedd eu llwyddiant yn amlwg yn yr adolygiad i fyny at ryw bwynt, ond roedd pethau wedi newid ers hynny, yn arbennig yn sgil cyd-destun y pandemig. Gwelid hefyd yr awydd i barhau â'r darpariaethau yma, ond fod eu ariannu yn dod i ben. Roedd arian ADTRAC yn dod i ben mis nesaf, ac arian TRAC yn dod i ben ymhen y flwyddyn. Roedd trafodaethau ar ffynonellau ariannu y tu hwnt i'r Cronfeydd Ewropeaidd presennol yn cael eu harwain o Lywodraeth San Steffan, ond sut fyddai'n bosib' bwrw ymlaen, oni bai bod yna newid meddwl sylweddol iawn ar ran y grymoedd sy'n ariannu'r pethau hyn?
- Bod cydweithio yn hynod bwysig yn y sefyllfa anodd sydd ohoni o ganlyniad i gollir arian ESF, a chyfeiriwyd at gydweithio amlasiantaethol yn Nyffryn Nantlle fel enghraifft dda o feddwl y tu allan i'r bocs.
- Mai un o'r dylanwadau mwyaf ar bobl ifanc yw eu cyfoedion, a chymerid bod yna bobl ifanc, fu'n anodd ac yn fregus ar un adeg, ond sydd bellach wedi troi cornel ac wedi symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu waith, ac sy'n fodlon siarad yn agored gyda phobl ifanc dadrithiedig.

- Dylid holi oes tystiolaeth bod y penderfyniad i godi tâl am gludiant i Goleg Meirion Dwyfor wedi bod yn rhwystr i bobl ifanc fynychu addysg bellach.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau:-

- Manylwyd ar y cydweithio rhwng y gwasanaeth iechyd meddwl CAHMS o fewn ADTRAC, a rhwng prosiect TRAC gyda'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad a'r Gwasanaeth Cwnsela Ysgolion.
- O ran mesur faint o bobl ifanc oedd mewn gwaith erbyn cyrraedd 25 oed, eglurwyd bod y Gwasanaeth yn mesur yr allbynnau, neu daith pobl ifanc sy'n ymgysylltu gyda'r rhaglenni a'r darpariaethau. O safbwynt ADTRAC, darparwyd infograffeg yn amlinellu faint o bobl ifanc oedd yn derbyn cefnogaeth, ac wedi symud i addysg, hyfforddiant neu waith. O'r nifer o bobl ifanc oedd yn derbyn y gefnogaeth, roedd 77% yn symud ymlaen i allbwn llwyddiannus. Roedd y Gwasanaeth hefyd yn casglu'r deilliannau meddal, mwy cadarnhaol roedd y bobl ifanc yn eu derbyn.
- O safbwynt y gwersi a ddysgwyd o ran pa ymyraethau sy'n llwyddiannus neu beidio, eglurwyd y byddai'r gwerthusiad terfynol o ADTRAC a TRAC yn amlinellu'r ymyraethau mwyaf llwyddiannus, fel bod modd eu hymgorffori mewn gwasanaethau craidd i'r dyfodol, wedi i'r cronfeydd Ewropeaidd ddod i ben.
- Eglurwyd nad oedd Cofid wedi effeithio ar y systemau tracio pobl ifanc, gan fod y cydweithio amlasiantaethol wedi agosáu yn sgil Cofid. Fodd bynnag, roedd wedi effeithio ar y gallu i ymgysylltu'n llwyddiannus gyda phobl ifanc NEET, oherwydd bod y gwaith wyneb yn wyneb wedi gorfod dod i ben yn ystod y cyfnodau clo.
- O ran sefydlu mecanwaith ar gyfer craffu pa mor lwyddiannus oedd y ddarpariaeth a roddwyd yn y gorffennol, nodwyd y byddai'r Grŵp Rheoli Fframwaith Ymgysylltu, oedd yn gyrru'r agenda lleol o dan y Fframwaith, yn derbyn ac yn trafod canlyniadau'r gwerthusiadau.
- Eglurwyd na lwyddwyd i sefydlu ymgysylltiad gyda thraean o'r cyfeiriadau i ADTRAC, a bod y rhesymau am hyn yn gymhleth, gan gynnwys amharodrwydd rhai pobl ifanc i ymgysylltu â'r ddarpariaeth, diffyg amser o fewn ffiniau prosiect i fagu'r berthynas a'r ymgysylltiad ac oedran datblygiadol rhai o'r bobl ifanc. Er hynny, gwelid yn aml fod pobl ifanc sy'n gadael ysgol yn 16 oed, heb symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu waith, yn barod i ymgysylltu â'r ddarpariaeth cyflogaeth ymhen blwyddyn neu ddeunaw mis.
- Nodwyd bod TRAC ac ADTRAC yn cydlynu cyfarfodydd pontio yn flynyddol, ac felly'n adnabod unigolion sydd â risg o beidio symud ymlaen i hyfforddiant neu waith, ac yn cadw rhywfaint o drac arnynt. Fel gydag ADTRAC, roedd y cyfeiriadau i TRAC yn achosion cymhleth, a rhai o'r plant hynny'n amharod i ymgysylltu â'r gefnogaeth. Yn fisol gallai hyd at 1000 o ddisgyblion amlygu yn gymwys i dderbyn cefnogaeth TRAC. Yn amlwg ni allai pob un ohonynt dderbyn gwasanaeth. Roedd TRAC yn ymgymryd â gwaith mapio er adnabod y rhai mwyaf anghenus. O ran tracio disgyblion mewn Coleg, y Coleg a Gyrfa Cymru oedd yn gwneud hynny.
- O ran y niferoedd, eglurwyd na fu i 160 allan o'r 470 o gyfeiriadau i ADTRAC dros y 3 mlynedd ddiwethaf symud ymlaen i gofrestru gyda'r prosiect. Roedd data ar gael o ran y gymhariaeth gydag awdurdodau eraill, a gellid adrodd yn ôl i'r craffwyr mewn ysgrifen ar hynny.
- O ran atal disgyblion Blwyddyn 11 rhag cyrraedd sefyllfa o adael ysgol heb bontio i addysg bellach, hyfforddiant neu waith, eglurwyd bod Gyrfa Cymru'n bartner llawn gydag Addysg, a bod modd cael mynediad at gyflogwyr, ayb, fel y gallai'r bobl ifanc flasgu a gweld yr opsiynau sydd ar gael iddynt.
- O ran sicrhau parhad y gwasanaeth i'r dyfodol yn niffyg arian Ewropeaidd, nodwyd bod gwerthusiad o TRAC yn cael ei wneud yn rhanbarthol, ynghyd â gwerthusiad o

ran effaith Cofid. Bwriedid cychwyn ar werthusiad lleol hefyd fel y gellid gweld beth fydd y bylchau fydd TRAC yn gadael ar ei ôl. Roedd gwaith ar droed hefyd i fapio etifeddiaeth TRAC, ond ni fyddai'n bosib i unrhyw fodel newydd fod yr un model ag yn bresennol. Roedd TRAC yn tynnu £3m o arian Ewropeaidd i mewn dros y 6 mlynedd (2016-2022). Edrychwyd ar fodelau fel bod yr Adran Addysg yn mabwysiadu elfennau o TRAC o fewn y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, gan ddefnyddio gwasanaethau fel ymyrraeth gynnar, cyfathrebu a rhyngweithio, sy'n gweithio'n bennaf yn y sector cynradd. Byddai'r gwasanaethau cynhwysiad hefyd yn gallu etifeddu rhywfaint o egwyddorion TRAC. Iddo weithio'n iawn, byddai'n rhaid i'r model fod yn wahanol i'r hyn sy'n cael ei ddarparu eisoes, gan fod yn greadigol ac yn hyblyg o ran anghenion yr unigolion yma. Cydnabyddid bod yna waith i'w wneud, a dyma fyddai'n arwain rhaglen waith y Rheolwr TRAC dros y 18 mis nesaf, fel bod modd cyflwyno model i'r Adran Addysg, boed y Cyngor yn derbyn arian ar gyfer hynny neu beidio. O ran ADTRAC, roedd yr Adran Plant eisoes wedi ail-fodelu ei ddarpariaeth yn y Gwasanaeth Ieuenctid i sicrhau trefniadau olynol i gyfarch rhai agweddau o'r prosiect hwnnw y tu hwnt i gyfnod ariannu Ewrop.

- O safbwynt parhad y gefnogaeth, nodwyd bod y gwerthusiad yn edrych ar sut mae TRAC yn cyd-fynd â darpariaeth rhai o wasanaethau eraill y Cyngor, megis yr ysgolion, y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad, gan ystyried lle mae'r bylchau, lle gellir eu llenwi, a lle fydd y bylchau yn amlwg yn parhau.
- Nodwyd bod TRAC/ADTRAC yn cydweithio gydag adrannau eraill y Cyngor i gynnig cyfleoedd i unigolion sydd ar gynlluniau, megis Kickstart, gael profiad gwaith gyda'r Cyngor.
- Eglurwyd, fel y nodwyd yn Atodiad 6 i'r adroddiad, bod y Fframwaith yn ddibynnol ar TRAC ac ADTRAC o ran y gallu i adnabod pobl ifanc sy'n debygol o ddisgyn allan o addysg, neu sydd wedi disgyn allan o addysg, hyfforddiant neu waith. Roedd yr ansicrwydd o ran pryd oedd yr adeg gorau i adolygu'r Fframwaith yn fater o bryder. Roedd y Cyngor yn cael ei yrru gan ariannu ESF i fod yn adolygu'r ddarpariaeth a'r trefniadau, ond roedd yr holl Fframwaith yn ddibynnol ar ariannu oedd yn dod i ben ar adegau gwahanol. Roedd rhannau o'r ddarpariaeth ôl-16 wedi'i adolygu, a'r elfen 11-16 oed eto i'w adolygu. Holwyd y craffwyr a oeddent yn gyfforddus ein bod, drwy gael ein gorfodi i adolygu yn y ffordd rydym yn gwneud ar hyn o bryd, yn mynd i gyfarch anghenion y Fframwaith yn ei gyfanrwydd, neu a oeddent o'r farn bod rhywbeth yn cael ei gollu drwy weithredu felly, gan dderbyn, ar yr un pryd, ei bod yn amhosib gwneud yr adolygu i gyd mewn un cam. Er bod TRAC ac ADTRAC yn ddau brosiect eithaf allweddol i'r Fframwaith, nid dyma'r unig adnoddau i helpu'r Cyngor i gyflawni'r nod, ac nid oedd yn glir ar hyn o bryd a ddeallid yr holl ddarpariaeth bellach. Roedd angen deall hefyd beth oedd perthynas y Fframwaith i raglenni economaidd a chyflogadweydd eraill, megis Cymunedau am Waith a Gwaith Gwynedd. Pwrpas y Fframwaith oedd sicrhau bod pob person ifanc yn ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant, neu waith, ond roedd Cofid, a phrofiad TRAC ac ADTRAC fel prosiectau, wedi dangos nad ymyrraethau gwaith nac addysg, yn ystyr y cwricwlwm addysg neu'r dysgu, oedd eu hangen ar rai pobl ifanc. Roedd yna heriau yn ymwneud â datblygiad personol ac amgylchiadau cymdeithasol pobl ifanc, ac efallai bod lle i gwestiynu a oedd y Fframwaith ei hun yn addas i bwrpas bellach, gan ei fod yn ceisio cynhyrchu allbynnau a chanlyniadau economaidd i bob person ifanc, er y gwelwyd bod iechyd meddwl, llesiant a datblygiad personol wedi bod yn fwy o rwystrau i bobl ifanc fynd yn ôl i addysg, hyfforddiant neu waith dros y 12 mis diwethaf.
- O ran targedu pobl ifanc sy'n cicio yn erbyn y tresi, a'u tynnu i mewn i'r Fframwaith a rhoi cynhaliadau iddynt, eglurwyd bod TRAC yn gweithio gyda phobl ifanc yn bennaf



drwy'r ysgolion. Gan fod y gwasanaeth yn eistedd o fewn yr Adran Addysg, ond ddim yn wasanaeth statudol, gellid bod yn greadigol ac yn hyblyg o ran yr hyn y gellid ei gynnig i'r unigolion yma. Yn ogystal â gweithio ar yr elfen cyflogadwyedd, roedd TRAC hefyd yn gweithio ar hunanddelwedd a hunanhyder y bobl ifanc hyn, gan weithio hefyd gydag unigolion â phroblemau ymddygiad. Yn amlwg, nid oedd yn bosib' gweithio gyda phob unigolyn, ac roedd yn rhaid iddynt fod ar radar TRAC, ond roedd y gwasanaeth yn gweithio gyda'r bobl ifanc mwyaf bregus.

Nododd aelod fod y cwestiwn cyllido yn llawer rhy gymhleth i'r craffwyr ei ateb ar hyn o bryd, ac awgrymwyd y dylai'r pwyllgor graffu'r maes ymhellach, gan drafod yr amserlen ar gyfer hynny yng Ngweithdy Blyneddol y pwyllgor hwn ym mis Mai. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r swyddogion yn hapus iawn i ddod i'r gweithdy, a chrybwyllwyd yr isod fel materion sydd angen sylw pellach:-

- Effaith y gwerthusiad pellach ar TRAC, a mewnbwn ar gyfer cynllunio olyniaeth i TRAC.
- Sut mae beth bynnag fydd yn digwydd ar ôl TRAC neu ADTRAC am ffitio i mewn yn y ddarpariaeth ehangach pe na bai cyllideb ar gael.
- Sut i ymateb i newid mewn darpariaeth sy'n digwydd ar wahanol adegau, tra'n parhau gyda'r trefniadau pontio a thracio, gan hefyd ddeall gwirioneddol effeithiau'r newidiadau ar y bobl ifanc, a'u hanghenion.
- Effeithiau Cofid ar ganlyniadau a phrofiadau disgyblion fydd yn gadael y gyfundrefn ysgol ym mis Gorffennaf, nid yn unig yn academiaidd, ond hefyd o ran y gynhaliath ehangach.

Nodwyd bod y swyddogion wedi bod yn agored a thryloyw wrth ateb cwestiynau'r craffwyr, a diolchwyd iddynt am eu gwaith gyda grŵp bregus iawn o bobl ifanc, sydd â heriau sylweddol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd - yn arbennig ynghylch addasrwydd trefniadau'r Fframwaith, yr angen i gynnig cynhaliath lawn i bobl ifanc sydd mewn peryg' o / wedi dadrithio o fyd addysg, hyfforddiant neu waith, gan sicrhau fod yr elfennau hyn yn cael sylw wrth adolygu ein darpariaethau i'r dyfodol. Dylid hefyd ystyried craffu'r maes ymhellach, gan drafod yr amserlen ar gyfer hynny yng Ngweithdy Blyneddol y pwyllgor hwn ym mis Mai.**

## **6. ADOLYGU'R GWASANAETH TEITHIOL LLYFRGELLOEDD**

Croesawyd yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, ynghyd â swyddogion yr Adran Economi a Chymuned i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned yn ceisio arweiniad y pwyllgor craffu ar y Gwasanaeth Teithiol i'r Cartref, yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol a hanesyddol o fewn y Gwasanaeth Llyfrgell. Gwahoddwyd yr aelodau i ystyried nifer o opsiynau, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Gwasanaeth o'r galw a'r defnydd presennol o'r gwasanaeth, ac arbedion y gellid eu gwneud o adolygu'r patrwm darpariaeth.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, gan nodi y gwelwyd bod nifer o fuddion yn codi o'r drefn newydd o gyflenwi'r Gwasanaeth, oedd wedi cychwyn yn ystod yr argyfwng Cofid, a bod pobl yn gwerthfawrogi'r trefniant fwyfwy wrth i amser fynd yn ei flaen.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Er derbyn bod pobl yn croesawu cael y gwasanaeth i'r cartref, efallai bod angen hybu ac annog pobl i fentro allan a chymdeithasu yn sgil y pandemig.
- Y gallai gofalwyr, ac ati, sy'n galw yng nghartrefi pobl, bigo llyfrau i fyny a mynd a hwy i'r person yn ystod eu hamser gwaith.
- Y gallai'r cerbyd teithiol ymweld ag, e.e. neuaddau pentref, pan fydd grwpiau neu glybiau paned yn cyfarfod yno.
- Y croesawid y defnydd o'r faniau trydan/hybrid i gyflenwi'r gwasanaeth, yn hytrach na'r lorïau mawr.
- Y deallid nad cyfle i arbed arian oedd y drefn newydd o gyflenwi'r Gwasanaeth, a phetai'r gwasanaeth yn gweld bod angen cadw'r status quo, bod arian ar gael ar gyfer hynny.
- Cwestiynwyd y penderfyniad i gyflwyno'r newid yn ystod y pandemig, a holwyd oni fyddai'n well aros i bethau setlo yn gyntaf?
- Y byddai peidio ag ymweld ag arosfannau teithiol yn golygu gostyngiad o 17% yn nifer yr aelwydydd yng Ngwynedd sydd o fewn cyrraedd llyfrgell sefydlog neu deithiol, a gan fod mwyafrif poblogaeth y sir yn byw yn y trefi beth bynnag, golygai hynny 17% o'r trigolion gwledig.
- Bod pobl sy'n gaeth i'w cartref, am ba reswm bynnag, yn croesawu'r gwasanaeth i'r cartref yn fawr iawn, a bod angen datblygu'r cynllun ymhellach, gan hefyd roi mwy o gyhoeddusrwydd iddo, e.e. drwy gynnwys eitem yn Newyddion Gwynedd. Awgrymwyd hefyd y byddai'n syniad gyrru e-bost at bob cynghorydd i'w hysbysu am y Gwasanaeth, gan ofyn iddynt ledaenu'r wybodaeth drwy'r prif gyfryngau cymdeithasol i drigolion eu wardiau. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd i ddilyn hynny i fyny.
- Bod y dewis o lyfrau ar fan yn reit gyfyng, a bod y gwasanaeth i'r cartref yn ehangu'r dewis o lyfrau, ac yn cyrraedd pawb yn y sir.
- Cwestiynwyd a fyddai pobl yn awyddus i ymgynnull mewn lle cyfyng fel fan yn sgil Cofid beth bynnag.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau:-

- Nodwyd bod pryderon wedi'u lleisio cyn y pandemig ynglŷn â'r lleihad o flwyddyn i flwyddyn yn y niferoedd oedd yn defnyddio'r arosfannau teithiol, a bod hyd yr arhosiad yn yr arosfannau hynny wedi lleihau dros y blynyddoedd hefyd.
- Eglurwyd bod profiad a ffigurau blaenorol y gwasanaeth yn awgrymu y byddai'r lleihad yn y defnydd o'r arosfannau teithiol yn parhau yn y dyfodol, gan fod patrwm bywyd ac anghenion pobl wedi newid. Hefyd, nid oedd yr arosfan yn ddelfrydol mewn tywydd gwael, ac roedd y cyfleuster o gael y gwasanaeth yn dod i'r cartref yn fwy deniadol.
- Cytunwyd bod modd datblygu'r syniad o wella lefel y cymorth a roddir i ddefnyddwyr y Gwasanaeth drwy, e.e. ddarparu cyfarpar TGCh a mynediad i'r rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd teithiol, a defnyddio'r gwasanaeth i alluogi trigolion mewn ardaloedd gwledig gael gafael ar wasanaethau eraill y Cyngor. Cyfeiriwyd at ddwy esiampol benodol o sut y llwyddwyd i fanteisio ar y dull newydd o ddarparu gwasanaeth cludo i'r cartref, sef y defnydd o grant trechu tlodi i ddarparu nwyddau misglwyf i'r cartref, a'r prosiect 'Llyfrgell y Petha', sy'n cynnig offer ar fenthyg i'r cartref, fel rhan o'r economi gylchol. Nodwyd bod y gwasanaeth yn gweithio gyda nifer o asiantaethau a gwasanaethau o ran hybu'r cynigion hyn.
- O ran ymweld â grwpiau, ac ati, nodwyd bod y gwasanaeth yn gallu ymateb i nifer o ymholiadau o'r math yma, gan dargedu a theilwrio'r gwasanaeth i gwrdd â llu o anghenion gwahanol.

- Nodwyd y credid bod digon o slac yn y system ar hyn o bryd i un gyrrwr fedru cyflenwi'r gwasanaeth ar draws Arfon a Dwyfor, ond bod angen troedio'n ofalus. Byddai'n rhaid treialu hynny'n gyntaf, ond gallai fod yn opsiwn pellach wrth gynllunio'r gwasanaeth i'r dyfodol.
- Eglurwyd bod y targed Dangosydd Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru, a'i fod yn mesur agosrwydd at lyfrgell, man gwasanaeth statig, neu fan gwasanaeth teithiol. Fodd bynnag, wrth gyflenwi i'r cartref, gellid dadlau bod y gwasanaeth yn cyrraedd 100% o'r boblogaeth.
- O ran yr amseru, nodwyd bod y cyfnod Cofid wedi caniatáu i'r Gwasanaeth arbrofi, a thrwy hynny, gwelwyd bod yna ddatrysiad gwahanol, sy'n medru cyrraedd mwy o bobl a darparu gwasanaeth gwell.
- Nodwyd bod pobl yn croesawu'r pecynnau darllen sydd wedi'u paratoi ar eu cyfer gan aelodau staff, a bod hynny'n ffordd dda o gyflwyno'r darllenwyr i awduron newydd.

Diolchwyd i'r Gwasanaeth Llyfrgell am y gwasanaeth gwych a ddarparwyd yn ystod y cyfnodau clo, a mynegwyd gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth llyfrau awdio hefyd.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod, ac argymhell i'r Cabinet fabwysiadu Opsiwn 1 yn yr adroddiad fel y model darparu a gweithredu gorau ar gyfer y Gwasanaeth Teithiol Llyfrgelloedd i'r dyfodol, sef:

**Cam 1**

**Gwasanaeth Cartref (misol) a Chludo Eitemau i'r Cartref yn cael ei ddarparu gan 3 cerbyd llai (faniau trydan / hybrid) a gyrrwr yr un ar gyfer:-**

1. Arfon
2. Dwyfor
3. Meirionnydd

**Cam 2**

**Yn dilyn ymddeoliad gyrrwr yn y 1-2 flynedd nesaf, Gwasanaeth Cartref (misol) a Chludo Eitemau i'r Cartref yn cael ei ddarparu gan 2 gerbyd llai (faniau trydan / hybrid) a gyrrwr yr un ar gyfer:-**

1. Arfon / Dwyfor
2. Meirionnydd

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.25 y.h.

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 7

<b>Pwyllgor</b>	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
<b>Teitl yr Adroddiad</b>	Addysg a'r Gymraeg: Gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	10 Mehefin 2021
<b>Awdur</b>	Debbie Anne Williams Jones
<b>Pennaeth Addysg</b>	Garem Jackson, Pennaeth Addysg
<b>Aelod Cabinet Perthnasol</b>	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru (CSGA). Daeth y cynlluniau cyntaf hyn yn weithredol ar 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- 1.2 Yn ystod 2017-18, bu cyfnod ymgynghori ar Reoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ynghyd â'r Canllawiau drafft. Golyga hyn y bydd y CSGA newydd yn dod i rym ym Medi 2022, a'u bod yn ddogfennau cynllunio 10 mlynedd.
- 1.3 Dros y misoedd diwethaf, mae'r Adran Addysg wedi bod yn wrthi'n llunio cynnwys y CSGA newydd hwn, gyda'r bwriad o ymgysylltu anffurfiol arno, cyn symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus yn nhymor yr hydref.
- 1.4 Mae addysg drochi yn greiddiol i bolisi iaith addysg Gwynedd a'r CSGA ar ei newydd wedd, ac o ganlyniad, mae'r weledigaeth newydd a gyflwynir ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt, yn greiddiol i gyflawniad a llwyddiant y CSGA a'r deilliannau cysylltiedig dros y ddeng mlynedd nesaf.

## 2. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 2.1 Yn yr adroddiad hwn a'r atodiadau cysylltiedig, cyflwynir gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi:
  - Weledigaeth a chyfundrefn addysg drochi arfaethedig newydd ar gyfer Gwynedd
  - Copi o Adroddiad crynodol: Cynllun Peilot Canolfannau Iaith Gwynedd at ddibenion cyfeirio.
- 2.2 Yn sgil yr adroddiad hwn, mae'r Aelod Cabinet Addysg yn awyddus i dderbyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar ei weledigaeth ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt:

*“Fy ngweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i’n darpariaeth.*

*Hoffwn weld cyfundrefn addysg drochi sydd yn hyblyg, ac sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o’r radd flaenaf, gan gefnogi newydd-ddyfodiaid i gaffael Y Gymraeg yn llwyddiannus, ynghyd â sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn Y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd, ac yn gyfrwng i’w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i’w galluogi i lwyddo a ffynnu.”*



**Cemlyn Rees Williams**  
**Aelod Cabinet Addysg**

### **3. YR ACHOS DROS NEWID**

3.1 Gellir crynhoi’r prif achos dros newid a’r angen am weledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi Gwynedd i’r meysydd canlynol, ac ymhelaethir arnynt ymhellach isod:

- Rhoi anghenion y dysgwr yn ganolog
- Cyfoesi a moderneiddio’r ddarpariaeth
- Gweithio mewn partneriaeth
- Cyfle i greu amgylchedd ddysgu o’r radd flaenaf
- Cyfleoedd newydd yn deillio o COVID-19
- Gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Peilot a weithredwyd ar gais y Cabinet.

#### **3.2 Rhoi anghenion y dysgwr yn ganolog**

- Yr angen i’r gyfundrefn hyrwyddo cyflawniad a lles newydd-ddyfodiaid Gwynedd i gaffael y Gymraeg tra ar yr un pryd gadw cysylltiad gyda’u hysgol leol a’u cyfoedion.
- Yr angen i’r gyfundrefn allu cynorthwyo rhieni a gofawyr i ddeall gwerth addysg Gymraeg a’u cynorthwyo i gefnogi eu plant.

#### **3.3 Cyfoesi a moderneiddio’r ddarpariaeth**

- Yr angen i’r gyfundrefn ymateb i anghenion y dysgwyr a’r cwricwlwm.
- Yr angen i fuddsoddi yn yr is-adeiledd ar gyfer y gyfundrefn gan gynnwys adnoddau digidol.

#### **3.4 Gweithio mewn partneriaeth**

- Yr angen i’r Adran Addysg ac ysgolion fod yn gweithio mewn partneriaeth gan gydberchnogi’r gyfundrefn addysg drochi.
- Yr angen i’r gyfundrefn addysg drochi allu rhoi arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau i ysgolion i’w galluogi i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach o safbwynt eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg.

#### **3.5 Cyfle i greu amgylchedd dysgu o’r radd flaenaf**

- Cyfle i fuddsoddi £1.1miliwn o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn y gyfundrefn addysg drochi gan wella’r amgylchedd dysgu a’r is-adeiledd.

#### **3.6 Cyfleoedd newydd yn deillio o COVID-19**

- Darpariaeth addysg gyfunol h.y. bu i’r Canolfannau Iaith ddarparu addysg gyfunol yn sgil y cyfnodau clo niferus, sef dysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu

byw drwy Teams, ynghyd á gwaith ar Google Classrooms. Bu i hyn gael ei gydnabod fel arfer rhagorol gan Estyn.

- Yr ysgolion yn galw am arbenigedd addysg drochi ac adnoddau i gefnogi'r Gymraeg i gael ei ledaenu ar draws y gyfundrefn.

### 3.7 Gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Peilot

- Bu i'r peilot amlygu'r angen i ystyried lles y dysgwyr, a chadw cysylltiad gyda'u cyfoedion; nifer yn ei chael hi'n anodd i ymdoddi'n ôl i'w hysgol leol ar ôl cyfnod mewn Canolfan.
- Yr angen i gryfhau'r berthynas gydag ysgolion i alluogi cynnydd pellach o ran cefnogaeth i ddatblygiad iaith.

3.8 Yn seiliedig ar yr achos dros newid felly, ein gweledigaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid yw eu bod yn cael:

*“Mynediad at gyfundrefn addysg drochi o’r radd flaenaf sy’n darparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy’n eu harfogi fel dysgwyr annibynnol â’r wybodaeth a’r sgiliau yn Y Gymraeg i’w galluogi i symud ymlaen.*

*Darparu trosglwyddiad effeithiol o’r addysg drochi i’r ysgol leol gan sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn Y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd ac yn gyfrwng i’w galluogi i lwyddo a ffynnu.”*

3.9 Ein nod yw cael cyfundrefn addysg drochi sydd yn rhoi anghenion y dysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth. Hoffem weld cyfundrefn sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

3.10 Manylir ar yr amcanion fydd yn sail i'r weledigaeth yn Atodiad 1, sef:


- Addysgu a Dysgu
- Amgylchedd Ddysgu
- Cwricwlwm
- Cefnogaeth i Ddysgwyr
- Adnoddau Cyllidol

3.11 Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, y pwrpas, y nod a'r amcanion, ein gobaith yw buddsoddi £1.1m o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd, er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, a chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.

3.12 Bydd y buddsoddiad cyfalaf hwn yn gyfrwng i sefydlu 2 safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a Bangor. Bwriedir gwella'r cyfleusterau hefyd yn safle addysg drochi Eifionydd, sydd eto wedi ei lleoli'n strategol reit ynghanol y sir. Bydd y 3 safle addysg drochi yma yn cynnig darpariaeth gynradd ac uwchradd ar y cyd gan bontio blynyddoedd 5-9.

3.13 Bwriedir hefyd adleoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle mwy er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth i ragor o blant, a bydd safle Dolgellau ynghyd â Llanybi a Maesinclla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yr ysgolion cynradd.

3.14 Yn sgil y buddsoddiad, bydd 6 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran cynradd a 3 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran uwchradd gydag hyblygrwydd rhwng y safleoedd yn unol â'r galw.



#### 4. Y WELEDIGAETH AR GYFER Y DDARPARIAETH DROCHI

4.1 Yn y gyfundrefn newydd, byddai'r ddarpariaeth addysg drochi cynradd ac uwchradd ar safle yn ddarpariaeth 4 niwrnod yr wythnos, am gyfnod o 8-10 wythnos. Byddai hyn yn fodd o sicrhau bod modd cynnal y ddarpariaeth drochi'n gyflawn ar gyfer y 3 tymor ysgol.

4.2 Byddai dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol am 1 diwrnod pob wythnos, a byddai hynny'n fodd i'r dysgwyr barhau â chyswllt efo'u hysgol leol, gan sicrhau parhad i'w haddysg drochi yn y Gymraeg yno, ynghyd â chael mynediad llawn i'r cwricwlwm.

4.3 Am 1 diwrnod yr wythnos, pan fo'r dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol, byddai staff y gyfundrefn addysg drochi ar gael i gynorthwyo'r dysgwyr yn yr ysgolion, yn gallu cynorthwyo yn y safleoedd addysg drochi eraill, yn darparu cefnogaeth o bell i'r dysgwyr, rhoi arweiniad i'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr, yn ogystal â llunio a darparu adnoddau mewn ymateb i angen ym maes addysg Gymraeg ac addysg drochi yn fwy cyffredinol.

4.4 Ar gyfer y cyfnod fydd yn weddill o bob tymor ble gwelwn y dysgwyr wedi dychwelyd i'w hysgolion lleol, bydd staff y gyfundrefn addysg drochi yn gweithredu rhaglen lawn o ddysgu cyfunol, sef addysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu byw drwy Teams, ynghyd â dysgu o bell drwy Google Classrooms i sicrhau cynhaliadaeth ychwanegol i'r dysgwyr i'w cynorthwyo i wneud cynnydd pellach i gaffael y Gymraeg yn yr ysgol.

#### 5. CYLLIDO'R WELEDIGAETH TUAG AT 2032 A THU HWNT

5.1 Bwriedir i'r Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt gael ei gyllido o 3 ffynhonnell gwahanol, sef:

- Grant GGA

- Ysgolion (canolog)
- Adran Addysg

## 5.2 Grant GGA

Dyma'r grant craidd ar gyfer cyllido'r Gyfundrefn Addysg Drochi, fodd bynnag, fel y gwyddom, yn sgil chwyddiant a chynnydd mewn costau, nid yw'r grant hwn ar ei ben ei hun yn ddigonol ar gyfer cyllido'r ddarpariaeth yn llawn.

## 5.3 Ysgolion

Ystyrir y gyfundrefn addysg drochi yn wasanaeth arbenigol a chwbl hanfodol i weithrediad polisi iaith addysg Gwynedd. O ganlyniad, bwriedir gofyn am gyfraniad ariannol gan yr ysgolion fydd yn fodd o sicrhau cyd-berchnogaeth a chyfundrefn addysg drochi addas i bwrpas tuag at 2032 a thu hwnt.

## 5.4 Adran Addysg

Mae'r Adran Addysg eisoes yn cyfrannu tuag at gostau'r gwasanaeth, a bydd y cyfraniad hwn yn parhau, drwy:

- Arian cyfatebol i'r grant GGA
- Gyfrannu at gostau cludiant i'r ddarpariaeth drochi.

## 6. I GRYNHOI

6.1 Yn anad dim, gwelir y Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt yn greiddiol i atal y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd drwy:

- ddarparu addysg drochi arloesol a rhagorol i newydd-ddyfodiaid y Sir fydd yn eu galluogi i ffynnu gyda'u cyfoedion yn ein cyfundrefn addysg ddwyieithog a thrwy hynny eu bod yn llwyddo i ymdoddi i gymdeithas Gymraeg a Chymreig eu hysgol leol heb deimlo eu bod yn 'wahanol' neu wedi eu heithrio o brofiadau arferol eu cyfoedion;
- darparu cefnogaeth i deuluoedd gofleidio'r Gymraeg, cefnogi addysg eu plant, ac elwa o brofiadau diwylliannol a chymunedol drwy gyfrwng Y Gymraeg;
- cefnogi ac arfogi ein hysgolion i feithrin sgiliau a hyder ein dysgwyr yn Y Gymraeg;
- cefnogi ac arfogi ein hysgolion i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at Y Gymraeg.

6.2 At ddibenion cyfeirio, ceir copi o Adroddiad Crynodol: Cynllun Peilot Canolfannau Iaith Gwynedd yn Atodiad 2.

## 7. CAMAU NESAF

7.1 Yn ystod mis Mehefin, bwriedir ymgysylltu'n anffurfiol ar y weledigaeth ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt gyda rhan-ddeiliaid allweddol

7.2 Bydd yr Aelod Cabinet Addysg yn ystyried y sylwadau a dderbynnir fel rhan o'r ymgysylltu anffurfiol, ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, cyn cyflwyno'r weledigaeth gerbron y Cabinet.



## **8. ARGYMHELLION**

### 8.1 Gofynnir i'r aelodau:

- gyflwyno sylwadau ar y weledigaeth arfaethedig ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.



# Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd

tuag at 2032 a thu hwnt



# Rhagair

## Cemlyn Rees Williams

### Aelod Cabinet Addysg



*“Fy ngweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i’n darpariaeth.*”

*Hoffwn weld cyfundrefn addysg drochi sydd yn hyblyg, ac sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o’r radd flaenaf, gan gefnogi newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus, ynghyd â sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a’u teuluoedd ac yn gyfrwng i’w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i’w galluogi i lwyddo a ffynnu.”*

## CYMRAEG 2050

*“Addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd.”*

*Nod Llywodraeth Cymru yw... creu system addysg statudol sy’n cynyddu’r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.*

## Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050





# Pwrpas y **gyfundrefn addysg drochi** tuag at 2032 a thu hwnt yw:

- **Hyrwyddo cyflawniad a lles newydd-ddyfodiaid Gwynedd i gaffael y Gymraeg.**
- Cefnogi dysgwyr sydd angen hwb ychwanegol i gynyddu eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg yn yr ysgol.
- **Arfogi a chefnogi gweithlu ysgolion Gwynedd i weithredu egwyddorion addysg drochi yn y Cyfnod Sylfaen.**
- Darparu arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau i weithlu ysgolion Gwynedd i'w galluogi i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach o safbwynt eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg.
- **Cynorthwyo rhieni a gofalwr i ddeall gwerth addysg Gymraeg a'u cynorthwyo i gefnogi eu plant.**





## Y weledigaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid yw:

Mynediad at gyfundrefn addysg drochi o'r radd flaenaf sy'n darparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n eu harfogi fel dysgwyr annibynnol â'r wybodaeth a'r sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i symud ymlaen.

Darparu trosglwyddiad effeithiol o'r addysg drochi i'r ysgol leol gan sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd ac yn gyfrwng i'w galluogi i lwyddo a ffynnu.

# Y Weledigaeth

Ein nod yw cael cyfundrefn addysg drochi sydd yn rhoi anghenion y dysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth.

Hoffem weld cyfundrefn sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.



## Ein Nod







**Dyma'r amcanion fydd yn sail i'r gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt:**

### **1. ADDYSGU A DYSGU**

1. Cyfundrefn addysg drochi arloesol, sydd yn seiliedig ar arbenigedd ac yn cyfoethogi'r profiad addysgu a dysgu yn ogystal ag annog rhagoriaeth yn y maes.
2. Y deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr yn gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan ddatblygu diddordeb gydol oes yn ieithoedd Cymru ac ieithoedd y byd, a thrwy hynny eu gwneud yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu yng nghyfundrefn addysg ddwyieithog Gwynedd a thrwy gydol eu hoes.
3. Cyfundrefn addysg drochi gyfoes sydd yn dathlu hunaniaeth, ymwybyddiaeth o iaith a threftadaeth, gan ddatblygu dysgwyr sy'n ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

### **2. AMGYLCHEDD DYSGU**

1. Amgylchedd Dysgu o'r radd flaenaf, gyda chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.
2. Amgylchedd Dysgu gynhwysol sydd yn ymateb i anghenion amrywiol gan gynnwys dysgwyr bregus a dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
3. Amgylchedd Dysgu sydd yn manteisio ar y dechnoleg fwyaf cyfoes gan roi profiadau a sgiliau amrywiol i ddysgwyr wrth gaffael iaith.

### **3. CWRICWLWM**

1. Cyfundrefn addysg drochi gadarn a gwydn sy'n gallu addasu i gyfarch unrhyw newidiadau perthnasol ym myd addysg.
2. Darpariaeth addysg drochi gyfoes sydd yn addas i bwrpas ar gyfer 2032 a thu hwnt sy'n adlewyrchu gofynion y dysgwyr a'r cwricwlwm.
3. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i gefnogi a darparu'r cwricwlwm.







#### 4. CEFNOGAETH I DDYSGWYR

1. Cyfundrefn addysg drochi sy'n cynnig darpariaeth fugeiliol ragorol gan roi anghenion y dysgwr yn ganolog.
2. Cyfundrefn addysg drochi sy'n sicrhau mynediad at gymorth a chefnogaeth o ansawdd uchel sydd wedi ei gynllunio o amgylch y dysgwr.
3. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion i sicrhau cymorth a chefnogaeth priodol i'r dysgwr, rhieni a gwarcheidwaid yng nghyd-destun y Gymraeg.

#### 5. ADNODDAU CYLLIDOL

1. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau cyllidol, gan sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddysgwyr.
2. Cyfundrefn addysg drochi hyfyw tuag at 2032 a thu hwnt wedi ei seilio ar grwpiau dysgu gwydn, cyllideb a chynllun busnes cadarn.
3. Cyfundrefn sydd wedi manteisio ar y cyfle i ddenu buddsoddiad o £1.1m ar gyfer gwella'r ddarpariaeth addysg drochi trwy Grant Cyfalaf Addysg Gymraeg.



## Cyflawni'r Nod, Y Weledigaeth a'r Amcanion

Byddwn yn buddsoddi £1.1m o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd er mwyn sicrhau amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf, a chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.


Bydd y buddsoddiad cyfalaf hwn yn gyfrwng i sefydlu 2 safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a Bangor. Bwriedir gwella'r chyfleusterau hefyd yn safle addysg drochi Eifionydd sydd eto wedi ei leoli'n strategol reit ynghanol y sir. Bydd y 3 safle addysg drochi yma yn cynnig darpariaeth gynradd ac uwchradd ar y cyd gan bontio blynyddoedd 5-9.


Bwriedir hefyd adleoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle mwy er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth i ragor o blant, a bydd safle Dolgellau ynghyd â Llangybi a Maesincla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yr ysgolion cynradd.

Yn sgil y buddsoddiad cyfalaf, bydd 6 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran cynradd a 3 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran uwchradd, gydag hyblygrwydd rhwng y safleoedd yn unol â'r galw.

O ganlyniad, yn y drefn newydd bydd modd cynnig y ddarpariaeth i fwy o ddysgwyr.

## Yn sgil yr uchod, bydd cyfundrefn addysg drochi newydd Gwynedd yn cynnwys 6 safle fel a ganlyn:





## Dalgylchoedd a wasanaethir

Mae'r tabl isod yn nodi pa ddalgylchoedd y byddai safleoedd Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yn eu gwasanaethu'n gyffredinol. Bydd hyblygrwydd rhwng yr holl safleoedd o ran derbyn dysgwyr o wahanol ddalgylchoedd yn ddibynnol ar niferoedd, ac yn arbennig y dalgylchoedd hynny sydd yn ffinio gyda sawl safle e.e. Ardudwy a Dyffryn Nantlle.

Dalgylchoedd	Bangor BI 5-9	Eifionydd BI 5-9	Tywyn BI 5-9	Maesincla BI 2-4	Llangybi BI 2-4	Dolgellau BI 2-4
Dyffryn Ogwen	Orange			Grey		
Bangor	Orange			Grey		
Brynrefail	Orange			Grey		
Syr Hugh Owen	Orange			Grey		
Dyffryn Nantlle	Orange			Grey	Grey	
Botwnnog		Orange			Grey	
Glan y Môr		Orange			Grey	
Eifionydd		Orange			Grey	
Y Moelwyn		Orange				Grey
Ardudwy		Orange	Orange			Grey
Bro Idris			Orange			Grey
Y Berwyn			Orange			Grey
Tywyn			Orange			Grey

# Y Ddarpariaeth

Bydd y ddarpariaeth addysg drochi cynradd ac uwchradd yn ddarpariaeth 4 niwrnod yr wythnos, am gyfnod o 8-10 wythnos. Bydd hyn yn fodd o sicrhau bod modd cynnal y ddarpariaeth drochi'n gyflawn ar gyfer y 3 tymor ysgol.

Bydd dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol am 1 diwrnod pob wythnos, a bydd hynny'n fodd i'r dysgwyr barhau â chyswllt efo'u hysgol leol, gan sicrhau parhad i'w haddysg drochi yn y Gymraeg yno, ynghyd â chael mynediad llawn i'r cwricwlwm.


Am 1 diwrnod yr wythnos, pan fo'r dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol, bydd staff y gyfundrefn addysg drochi ar gael i gynorthwyo'r dysgwyr yn yr ysgolion, yn gallu cynorthwyo yn y safleoedd addysg drochi eraill, yn darparu cefnogaeth o bell i'r dysgwyr, rhoi arweiniad i'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr, yn ogystal â llunio a darparu adnoddau mewn ymateb i angen ym maes addysg Gymraeg ac addysg drochi yn fwy cyffredinol.

Ar gyfer y cyfnod fydd yn weddill o bob tymor ble gwelwn y dysgwyr wedi dychwelyd i'w hysgolion lleol, bydd staff y gyfundrefn addysg drochi yn gweithredu rhaglen lawn o ddysgu cyfunol, sef addysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu byw drwy Teams, ynghyd â dysgu o bell drwy Google Classrooms i sicrhau cynhaliadaeth ychwanegol i'r dysgwyr i'w cynorthwyo i wneud cynnydd pellach i gaffael y Gymraeg yn yr ysgol. Bydd modd darparu addysg gyfunol ar unrhyw adeg i ddysgwyr sydd yn parhau i fod angen cymorth ychwanegol wedi iddynt dychwelyd i'w hysgol leol ar ôl treulio 8-10 wythnos yn y ddarpariaeth addysg drochi.

## Modelu'r ddarpariaeth



Dysgwyr yn mynychu'r ddarpariaeth Addysg Drochi gyfagos am 4 diwrnod yr wythnos am gyfnod o 8-10 wythnos




Dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol am 1 diwrnod yr wythnos am gyfnod o 8-10 wythnos cyn dychwelyd i'w hysgol leol yn llawn amser.





## Strwythur Staffio





# Ariannu

Caiff y Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt ei gyllido o 3 ffynhonnell gwahanol, sef:

- **Grant GGA**  
Dyma'r grant craidd ar gyfer cyllido'r Gyfundrefn Addysg Drochi, fodd bynnag, yn sgil chwyddiant a chynnydd mewn costau, nid yw'r grant hwn ar ei ben ei hun yn ddigonol ar gyfer cyllido'r ddarpariaeth yn llawn.
- **Ysgolion**  
Ystyrir y gyfundrefn addysg drochi yn wasanaeth arbenigol a chwbl hanfodol i weithrediad polisi iaith addysg Gwynedd. O ganlyniad, bwriedir gofyn am gyfraniad ariannol gan yr ysgolion fydd yn fodd o sicrhau cyfundrefn addysg drochi addas i bwrpas tuag at 2032 a thu hwnt.
- **Adran Addysg**  
Mae'r Adran Addysg eisoes yn cyfrannu tuag at gostau'r gwasanaeth, a bydd y cyfraniad hwn yn parhau, drwy:
  - Arian cyfatebol i'r grant GGA
  - Gyfrannu at gostau cludiant i'r ddarpariaeth drochi.





## Mesur Llwyddiant:

Byddwn yn mesur llwyddiant y gyfundrefn addysg drochi yn benodol drwy gyfrwng y mesurydd canlynol:  
Nifer / % newydd-ddyfodiaid sydd yn cyrraedd Lefel 2 (llafaredd) ar ddiwedd eu cyfnod trochi dwys.

**Byddwn hefyd yn mesur llwyddiant y gyfundrefn addysg drochi o ystyried cyfraniad y gyfundrefn i ddeilliannau canlynol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod:**

- Mwy o blant dosbarth derbyn/ 5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. (CSGA: Deilliant 2)
- Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall. (CSGA: Deilliant 3)
- Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. (CSGA: Deilliant 4)
- Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. (CSGA: Deilliant 5)
- Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (CSGA: Deilliant 6)



## Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA):

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn ddogfen statudol o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019.

Mae'r CSGA yn amlinellu sut mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun addysg Gymraeg. Yng Ngwynedd, caiff y CSGA ei ddehongli yng nghyd-destun Polisi Iaith Addysg y Sir. Nod y Polisi iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Wrth ddwyieithrwydd oed berthnasol golygir bod disgyblion yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Pwrpas y Gyfundrefn Addysg Drochi yw hyrwyddo cyflawniad dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg drwy ddarpariaeth trochi dwys, ynghyd â darparu cefnogaeth i ddysgwyr sydd angen hwb ychwanegol o safbwynt eu hyder neu eu sgiliau yn y Gymraeg yn yr ysgol. Mae darpariaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi iaith cyfredol, ynghyd â chyfrannu at ffyniant ein dysgwyr yn y gyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog a geir yng Ngwynedd.



*“Rwy'n falch o gyhoeddi **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032**. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu fy ngweledigaeth o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenon ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth. Mae'r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.*

Mae Adrannau'r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl nodau ac amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** ac yn sgil hynny gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae hi'n gyfnod hynod o gyffrous i'r iaith Gymraeg a hoffwn sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd, ac yn gyfrwng i'w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i'w galluogi i lwyddo a ffynnu. Yn yr un modd, hoffwn sicrhau bod holl weithlu ein hysgolion yn hyderus ddwyieithog, gan dderbyn pob cefnogaeth i feithrin eu hyder a'u sgiliau yn yr iaith Gymraeg, gan allu trosglwyddo'r sgiliau hynny'n effeithiol i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lawr dosbarth.”

Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams,  
Aelod Cabinet Addysg.









**ADRODDIAD CRYNODOL:**

***Cynllun Peilot Canolfannau Iaith Gwynedd.***



## Cefndir

Ar 2 Ebrill 2019 penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd weithredu cynllun peilot mewn un Canolfan Iaith o strwythur staffio o athro a chymhorthydd er mwyn canfod a ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant.

## Briff yr ymchwil

Lluniwyd briff ar gyfer yr ymchwil ac fe'i cyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 10 Hydref 2019 am sylwadau.

Roedd y briff yn nodi'r gofynion canlynol, gyda phob Canolfan Iaith yn rhan o'r ymchwil fyddai'n sail i fesur effaith y cynllun peilot yng Nghanolfan Iaith Maesincla.

### 1.1. a) Strwythur Dyddiol y Canolfannau Iaith

Bydd gofyn i'r tîm ymchwil ystyried trefniadau dydd i ddydd y dysgu a'r addysgu ymhob Canolfan Iaith, sef ar ba gyfnodau yn ystod y diwrnod gwaith y mae pob Canolfan yn cynnal:

- un grŵp dysgu gyda 2 athro (uchafswm ratio 2:16)
- un grŵp dysgu gydag athro a chymhorthydd (uchafswm 2:16)
- un grŵp dysgu gydag 1 athro (uchafswm ratio 1:16)
- un grŵp dysgu gyda chymhorthydd (uchafswm ratio 1:16)
- dau grŵp dysgu (uchafswm ratio 1:8)
- arall

1.2 Mae niferoedd y disgyblion sydd yn mynychu'r Canolfannau Iaith yn gallu amrywio hyd at uchafswm o 16 disgybl. Golyga hyn y gall niferoedd y disgyblion yn y grwpiau dysgu ymhob Canolfan amrywio ar sail cyfanswm niferoedd y plant, a gofynnir i'r tîm ymchwil roddi ystyriaeth briodol i hynny fel rhan o'r ymchwil.

### 1.3 b) Gwybodaeth Gefndirol

Yn ogystal â'r wybodaeth gyffredinol a gesglir am bob disgybl, bydd y tîm ymchwil hefyd yn ystyried gwybodaeth gefndirol ychwanegol am y plant a'u teuluoedd sydd wedi symud i Wynedd ynghyd â'u cysylltiad a'u profiadau blaenorol neu bresennol gyda'r Gymraeg cyn mynychu'r Ganolfan Iaith. Bydd y wybodaeth yma'n cynnwys:

- Pryd y bu iddynt symud i Wynedd?
- A ydynt wedi byw yng Ngwynedd yn flaenorol?
- Prif resymau dros symud i Wynedd?
- A oes unrhyw aelodau o'r teulu neu'r teulu estynedig yn gallu siarad Cymraeg?
- A ydynt yn mynychu gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg?
- A ydynt yn credu ei bod yn fanteisiol dysgu'r Gymraeg?
- A oes gan y plentyn brofiad o'r iaith Gymraeg cyn symud i Wynedd?
- A oes gan y plentyn gyswllt gyda rhywun y tu allan i'r ysgol sydd yn gallu siarad Cymraeg?
- Beth mae'r plentyn yn obeithio ei gyflawni o ddysgu'r iaith Gymraeg?





- 1.4 Bydd y wybodaeth yma'n fodd o sefydlu gwaelodlin o gefndir y plant, oedran, blwyddyn ysgol, eu hagweddau ynghyd â'u cysylltiad blaenorol efo'r Gymraeg, fydd yn sail i'r ymchwil ar draws y Canolfannau Iaith.
- 1.5 **c) Ymweliadau i'r Canolfannau Iaith**  
Bydd y tîm ymchwil yn cynnal ymweliadau i'r Canolfannau Iaith er mwyn ystyried, gweld a mesur y cynnydd ieithyddol a wneir gan y plant yn ystod eu cyfnod mewn Canolfan. Bydd y tîm ymchwil yn mynychu'r Canolfannau Iaith ar dri chyfnod penodol yn ystod y cwrs i allu mesur cynnydd ieithyddol y plant, sef oddeutu:
- Cynradd: Wythnos 4, 8 a 12
  - Uwchradd: Wythnos 3, 6, 8
- 1.6 Bydd y Canolfannau Iaith yn llunio meini prawf ar sail cynnwys y cwrs o'r cynnydd a'r patrymau iaith y dylai'r plant fod wedi eu meistroli erbyn y cyfnodau allweddol cytunedig hynny yn ystod y cwrs.
- 1.7 Bydd gofyn i'r tîm ymchwil ddod i farn a yw'r plant wedi cyflawni'r cynnydd disgwyl-iedig ai peidio, a hynny mewn trafodaeth gydag athrawon a chymorthyddion y Canolfannau Iaith er sicrhau cyd-destun llawn i'r farn.
- 1.8 Yn unol â Chynllun Busnes y Canolfannau Iaith, bydd y tîm ymchwil yn mesur i ba raddau mae'r Canolfannau Iaith yn cyflawni eu pwrpas drwy gyfrwng y mesurydd canlynol:

**Nifer/ % plant sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith** gan ystyried hynny, ochr yn ochr â:

- Strwythur dyddiol y Canolfannau Iaith
- Gwybodaeth gefndirol a phroffil y plant
- Ymweliadau i'r Canolfannau Iaith

## 2. Y Tîm Ymchwil

2.1. Penodwyd aelodau'r tîm ymchwil ar sail eu profiadau a'u harbenigedd ym maes addysg drochi ac addysg ail-iaith. Aelodau'r tîm ymchwil Dr Diane Jones, Swyddog Addysg, Sian Eirug, Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd, a Nia Williams, Cyn-bennaeth Ysgol Morfa Nefyn. Cafwyd hefyd fewnbwn proffesiynol ac anffurfiol gan Dr Enlli Thomas, Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor.

### **Dr Diane Jones**

Swyddog Addysg

Mae Diane yn Swyddog Addysg gydag Awdurdod Gwynedd ers pum mlynedd. Fel aelod o Dîm Rheoli'r Adran Addysg mae'n cyfrannu at, ac yn arwain ar, gynlluniau gwella addysg, gynlluniau cyfalaf mewn perthynas â'r stâd ysgolion a datblygiadau ym maes Addysg, yn cyd arwain ar ymyriaethau a chynlluniau datblygu ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i arweinwyr ysgolion mewn amrywiaeth o feysydd. Mae ei chefnidir ym maes datblygu cymunedol a diwylliannol, a dysgu Cymraeg i ddysgwyr o amrywiol hyfedredd yn y Sector Uwchradd a'r Sector Addysg Uwch. Bu iddi ennill doethuriaeth mewn iaith a Llenyddiaeth Gymraeg am ei hymchwil ym maes y ddrama yng Nghymru.

### **Sian Eirug**

Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd

Cyn ymgymryd a'i rôl bresennol fel Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd o fewn yr Awdurdod, bu Sian Eirug yn Bennaeth Adran Y Gymraeg mewn ysgol Uwchradd yng Ngheredigion, ac yna'n Gyfarwyddwr y Cwrs TAR ym Mhrifysgol Aberystwyth, am dros ddeng mlynedd, gyda chyfrifoldeb am Y Gymraeg fel pwnc. Bu'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith i athrawon dan hyfforddiant, a chyfrannu'n gyson i ddarpariaeth y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, gan arbenigo mewn addysgu dwyieithog.

Bu'n cyfrannu'n ogystal at gwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol, Prifysgol Caerdydd, ac yn Arolygydd Cymheiriad gyda Estyn. Mae ganddi brofiadau eang o weithio fel safonwr i CBAC.





## Nia Williams

Cyn-bennaeth Ysgol Morfa Nefyn

Bu Nia yn Bennaeth Ysgol Morfa Nefyn am 10 o flynyddoedd cyn ymddeol yn 2018. O dan ei harweiniad bu i'r ysgol dderbyn safon Rhagoriaeth gan Estyn ar ddau achlysur. I grynhoi gyrfa lwyddiannus ym myd Addysg bu i Nia dderbyn gwobr 'Teilyngwr' yng ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru yn 2017 am ei chyfraniad i ddatblygu'r Gymraeg i Safon Uchel.

Yn rhan o'i rhôl fel Pennaeth bu wrthi'n ddyfal yn creu adnoddau dysgu, arwain a chynnal cyrsiau ar godi safonau yn y Gymraeg yn enwedig mewn gwaith llafar ar draws Cymru i amrywiaeth o sefydliadau fel ysgolion, CBAC a chynadleddau amrywiol.

Yn ddiweddar wedyn mae Nia wedi bod yn Anogwr Llafaredd Cyfnod Sylfaen fel rhan o brosiect 'Miliwn o Siaradwyr 2050' Llywodraeth Cymru.

### 3. Yr Ymchwil

- 3.1. Cynhaliwyd yr ymchwil i'r Canolfannau Iaith rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, bu i amodau di-gynsail pandemig Covid-19 amharu ar yr amserlen a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer cwblhau'r gwaith.
- 3.2. Isod cyflwynir grynodeb gan y tîm ymchwil o'u canfyddiadau ar sail yr ymweliadau a gynhaliwyd ganddynt i bob Canolfan Iaith yn ystod Tymor yr Hydref 2019 a rhan o Dymor y Gwanwyn 2020.

### 4. Canfyddiadau'r Ymchwil

#### 4.1. Arferion da:

Profiad braf i'r Tîm Ymchwil oedd bod yn dyst i'r ffaith fod y disgyblion a oedd yn bresennol yn y Canolfannau yn ystod ein hymweliadau yn cael pleser o fod yno. Rhaid canmol y cyd-weithio ymysg aelodau staff y Canolfannau unigol i sicrhau profiadau cadarnhaol i'r disgyblion oedd yn eu mynychu, a braf oedd tystio i werthfawrogiad Penaethiaid yr ysgolion o'r gwaith oedd yn digwydd yno i arfogi'r disgyblion gyda sgiliau iaith Gymraeg. Mae'n amlwg fod y disgyblion sydd yn mynychu yn gwneud cynnydd yn eu gallu i siarad a defnyddio'r iaith Gymraeg – does dim amheuaeth am hynny. Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth sydd yn bodoli o fewn y cynnydd hwnnw yn rhywbeth y dylid ei ystyried ymhellach.

## 4.2. Strwythur y Gwasanaeth:

Ceir pedair Canolfan Iaith Cynradd ac un Ganolfan Uwchradd. Er y gwelwyd tystiolaeth o ychydig o gydweithio yn ddiweddar ar draws y Canolfannau, fe weithredant fel canolfannau unigol. O ganlyniad, teimlir fod anghysondeb yn y ddarpariaeth a ddarperir i ddisgyblion y sir, a gwelwyd enghreifftiau o ddyblygu swyddogaethau, ac fe ellid rheoli hynny'n dynnach. Credir y byddai hynny'n dylanwadu'n gadarnhaol ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Teimlwyd nad oedd staff y Canolfannau yn cael eu cefnogi'n ddigonol ar faterion addysgu a dysgu e.e mynediad at gefnogaeth Swyddogion Addysg, athrawon mewn Cymunedau Dysgu Proffesiynol a Swyddogion Gwe.

## 4.3. Trefn Mynediad:

Roedd amrywiaeth yn hyd y cyfnodau oedd yn cael eu treulio yn y Canolfannau gan y disgyblion oedd yn eu mynychu. Roedd disgyblion yn mynychu'r Canolfannau Cynradd am ddeuddeng wythnos, a'r Ganolfan Uwchradd am wyth wythnos. Nid oedd y drefn o dderbyn disgyblion i'r Canolfannau cynradd yn glir, ac fe welwyd fod y drefn yr adroddwyd amdani yn y Canolfannau unigol yn amrywio'n fawr. Roedd rhai yno am eu bod yn hwyrddyfodiaid pur, eraill yno er mwyn derbyn ychydig o hwb gyda'u sgiliau darllen ac ysgrifennu, ond yn gwbl rhugl eu hiaith lafar. Roedd eraill mewn Canolfan arall eisoes wedi bod yn y Ganolfan yn y flwyddyn addysgol flaenorol, ond wedi mynd yn ôl i'r ysgol bryd hynny a chael cyfle i ddod yn ôl. Nododd un Ganolfan fod rhai plant yn mynd yno gan eu bod "yn gyffredinol wan" yn addysgol. Nid oedd trefn bendant o osod gwaelodlin ar gyfer dysgwyr yn unigol yn cael ei harddel er mwyn gallu mesur cynnydd yn ei erbyn. Nid oedd unrhyw broses gyson ar draws y Canolfannau Cynradd o wirio ceisiadau ysgolion i ddysgwyr gael eu mynychu. Teimlwyd wrth siarad gyda staff yr ysgolion oedd yn anfon disgyblion i'r Canolfannau bod diffyg dealltwriaeth amlwg o'r drefn gyfeirio ac wrth benderfynu pwy oedd yn gymwys i fynychu ai peidio. O ganlyniad i'r diffyg eglurder yn y drefn o dderbyn disgyblion i'r Ganolfan, mae'n anodd dod i farn gadarn wrth fesur cynnydd y disgyblion.

O ganlyniad i'r amrywiaeth yn yr amodau derbyn disgyblion i'r Canolfannau, amlyga hyn yr angen am ddarpariaeth sydd yn fwy gwahaniaethol ac sy'n cynnig her briodol i allu ieithyddol ac addysgol y mynychwyr.







#### 4.4. Strwythur Staffio:

Nid oedd rhesymeg glir na chysondeb i strwythur staffio'r Canolfannau Iaith. Ni cheir unrhyw enghraifft arall o fewn ysgolion y Sir o ddsbarthiadau'n cael eu harwain gan ddau athro/athrawes, ond yn hytrach, athro/athrawes a chymhorthydd. Mewn dwy o'r Canolfannau Cynradd, roedd Arweinydd ac Athrawes. Mewn Canolfan arall, un athrawes a chymhorthydd (sef y cynllun peilot), ac yn y llall, Arweinydd a chymhorthydd. Yn y Ganolfan Uwchradd, roedd arweinydd ac athrawes. Gwelwyd arferion da iawn o gyd-weithio effeithiol ym mhob canolfan, ac ni theimlwyd o gwbl fod unrhyw ddisgybl o dan anfantais o ganlyniad i strwythur staffio amrywiol y Canolfannau Iaith. Gwelwyd rhai enghreifftiau rhagorol o gydweithio rhwng athrawes a chymhorthydd mewn un ganolfan gynradd. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o ran y defnydd o gymorthyddion a/neu athrawon ar draws y Canolfannau, gyda rhai enghreifftiau o athrawon a chymorthyddion yn cymryd grwpiau dysgu ar adegau, neu'n cefnogi'r dysgu o dan arweiniad athro neu arweinydd arall. Nid oedd dull yr athrawon o grwpio ac addysgu disgyblion yn ystod y dydd yn glir. Roedd aml i enghraifft mewn Canolfannau dwy athrawes neu arweinydd ac athrawes o un aelod o staff yn cymryd y grwpiau i gyd am gyfnodau estynedig yn ystod y dydd. Teimlwyd fod cyfleoedd yn cael eu colli i wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol er mwyn cynnig rhagor o gefnogaeth neu her fel bo'n briodol.



#### 4.5. Strwythur yr addysgu ac ansawdd y dysgu:

Er bod *Cynllun y Llan* yn gynllun strwythuredig ar gyfer y Canolfannau cynradd, roedd amrywiaeth mawr yn y dull yr oedd yn cael ei ddefnyddio a'i gyflwyno o un safle i'r llall. Roedd amrywiaeth yn yr hyn oedd yn cael ei gyflwyno ar lafar – ambell enghraifft o dreigladau'n cael eu cyflwyno'n naturiol ac enghraifft o hynny ddim yn cael ei gyflwyno o gwbl mewn canolfan arall. Y teimlad cyffredinol, o siarad gyda staff y Canolfannau, ac o arsylwi ar y dysgu, oedd fod y Cynllun wedi dyddio, a theimlwyd fod seilio'r holl raglen addysgu ar bentref dychmygol fel sydd yn y Cynllun, yn amherthnasol i gylch profiad y disgyblion oedd yn mynychu'r Canolfannau laith. Yn bendant, roedd technegau trochi effeithiol yn cael eu hymarfer ar adegau, ond teimlir bod gwir angen am ddiweddarau'r cyd-destun y cyflwynir yr iaith ynddo, heb os nac onibai. Mae Cynllun tebyg, sef cynllun *Cefyn Cŵl* yn bodoli yn y Ganolfan Uwchradd, ond fe deilwirir peth darpariaeth bynciol yn ogystal yno, er mwyn rhoi elfennau o'r Cwricwlwm Cymreig i'r dysgwyr sydd yn mynychu, ble'r edrychir ar themâu megis y *Welsh Not*, hanes y gwledydd Celtaidd, Hanes yr iaith ac ati. Teimlwyd bod hyn yn arfer dda y dylid ei efelychu yn y Canolfannau Cynradd. Fodd bynnag gyda'r disgyblion Uwchradd yn benodol, tybed a yw eu datblygiad yn eu pynciau craidd yn dioddef o ganlyniad i fethu cyfnod estynedig o fewnbwn addysg prif lif yn eu hysgolion? Nod y Canolfannau laith yw sicrhau bod y disgyblion sydd yn eu mynychu yn cyrraedd Lefel 2 (Llafaredd) ar ddiwedd eu cyfnod yno er mwyn ymdopi yn ôl yn eu hysgolion gyda'r ddarpariaeth ddwyieithog a ddarperir yno. Fe welwyd arferion da yng nghyd-destun y Cynllun Peilot, ond gan nad oes trefn gyson yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth i osod gwaelodlin ac i fesur cynnydd, mae'n anodd dod i farn a yw hyn yn cael ei gyflawni gyda phob disgybl. Yn ogystal, gan nad yw'r ddarpariaeth yn gwahaniaethu'n ddigonol i anghenion gwahanol ddisgyblion unigol, nid oes modd gwybod i sicrwydd faint o'r disgyblion hynny oedd yn hwyrdyffodiaid pur oedd yn cyflawni disgrifyddion Lefel 2 (Llafaredd) yn y Gymraeg. Cwestiynir, felly, ddibynadwyedd y data hwn. Fodd bynnag, gellir nodi gyda sicrwydd bod y dysgwyr i gyd yn gwneud cynnydd ac yn llwyddo i gaffael rhywfaint ar y Gymraeg, ond bod amrywiaeth amlwg yn y cynnydd hwnnw ar gyfer disgyblion unigol ym mhob Canolfan.

#### 4.6. Ôl-ofal:

Ni theimlwyd y cafwyd darlun cwbl glir o'r ddarpariaeth ôl-ofal gan na fu'n bosib ym weld yn y trydydd tymor o ganlyniad i'r pandemig. Gwelwyd nifer fach o ddysgwyr oedd wedi mynychu'r Ganolfan yn ystod tymor yr Hydref, a gellid gweld fod dilyn y ddarpariaeth addysgol yn y dosbarth yn profi'n heriol i ambell un, yn ogystal â'r gallu i gymysgu'n naturiol gyda'u cyfoedion. O siarad gyda staff y Canolfannau, darlun annelwig a gafwyd o'r drefn o gynig ôl-ofal yn dilyn dychweliad y disgyblion i'r ysgolion. Nid oedd y Canolfannau laith Cynradd (yn sgil penderfyniad Cabinet 2 Ebrill 2019) eto wedi gweithredu'r drefn newydd o ddarparu ôl-ofal i'r dysgwyr yn y trydydd tymor yn uniongyrchol eu hunain, serch hynny, hyd at 20 Mawrth 2020, doedd dim







cynllun amlwg mewn lle i ymateb i'r gofyn newydd hwn. Teimlir y gallai'r ysgolion cynradd fanteisio ymhellach ar arbenigedd staff y Canolfannau Iaith gan rannu arferion da a rhoi cynhaliaeth i grwpiau ehangach o blant allai fod yn elwa o'r hwb ychwanegol i'w sgiliau llafar. Byddai hynny yn fodd i gryfhau'r cydweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion cynradd a'r uwchradd ymhellach, ac yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o berchnogaeth yn y daith o gyflwyno'r iaith i'r disgyblion. Byddai datblygu'r ôl-ofal presennol i gynnig cefnogaeth a ffurfio Grwpiau Ymyrraeth posib yn yr ysgolion cynradd yn cael effaith gadarnhaol ar gyraeddiadau'r disgyblion ac yn fodd iddynt weld perthnasedd yr iaith i'w datblygiad addysgol ehangach, yn hytrach na chyfyngu hynny'n unig i ffiniau pentref dychmygol Llanfairgogoch (Cynllun y Llan).

## 5. Meysydd sydd angen sylw pellach:

Argymhellir y dylid edrych yn ofalus ar y canlynol er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth bresennol:

1. Polisi a threfn mynediad clir i gael ei sefydlu a'i fonitro'n ofalus.
2. Strwythur presennol y ddarpariaeth: a oes ffyrdd amgenach i gynnig y ddarpariaeth fydd yn galluogi'r disgyblion allu setlo'n eu hysgolion ochr yn ochr â mynychu'r Canolfannau Iaith?
3. Cysoni gweinyddiaeth ddyddiol y Canolfannau e.e dyddiau HMS yr ysgolion y lleolir y Canolfannau ynddynt, trefn ac amserau'r tacsis sy'n cludo'r disgyblion.
4. Cysoni'r drefn o adrodd ar gynnydd y dysgwyr.
5. Rhannu arferion da ar draws y Canolfannau ac ysgolion.
6. Cryfhau'r berthynas gyda'r ysgolion cynradd i alluogi cynnydd pellach o ran cefnogaeth i ddatblygiad iaith.
7. Mabwysiadu dull o gynllunio gwaith sy'n nodi deilliannau clir ac amserol i hwyluso'r monitro a wneir o gynnydd.
8. Cynllun ôl-ofal clir.
9. Cryfhau dulliau Sicrhau Ansawdd wrth anelu at ragoriaeth
10. Ystyried ymhellach strwythur amserlennu'r tymhorau presennol i sicrhau darpariaeth gynhwysfawr, sy'n ateb anghenion y dysgwyr ac yn rhoi gwerth am arian.



# Eitem 8

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Teitl yr Adroddiad	Grantiau COVID i fyd addysg i gynorthwyo disgyblion
Dyddiad y Cyfarfod	10 Mehefin 2021
Awdur yr Adroddiad	Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg
Swyddog Perthnasol	Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Aelod Cabinet Perthnasol	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

## 1. Cefndir

- 1.1 Yn sgil y pandemig COVID, mae **Grant Rhaglen Dysgu Carlam** wedi ei dderbyn gan ysgolion i gynorthwyo disgyblion.
- 1.2 Er bod ystod o grantiau eraill wedi bod ar gael i gefnogi ysgolion oherwydd gofynion COVID, dim ond y **Grant Rhaglen Dysgu Carlam** sydd yn uniongyrchol ar gyfer cynorthwyo disgyblion. Mae'r grantiau eraill wedi bod i bwrpasau gwahanol, er enghraifft, costau llanw yn lle staff oedd i ffwrdd oherwydd gofynion COVID, adennill costau addasiadau mewn ysgolion oherwydd gofynion COVID, colled incwm gwasanaeth arlwyfaeth ysgolion uwchradd, ayyb.

## 2. Amodau'r Grant

Gweler isod grynodedb o amodau'r grant gan Lywodraeth Cymru:

### Rhaglen Dysgu Carlam

- 2.1 *Disgwylir i'r cyllid helpu ysgolion i fodloni gofynion **Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau: Rhaglen Dysgu Carlam** a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg ar 9 Gorffennaf 2020.*
- 2.2 *Yn ystod yr argyfwng, daeth i'r amlwg nad yw nifer o ddysgwyr wedi symud ymlaen gymaint ag y gellid ei ddisgwyl o ran eu cynnydd wrth ddysgu, ac mae rhai dysgwyr wedi'u heffeithio'n fwy difrifol nag eraill. Mae'r cyllid hwn yn galluogi buddsoddiad mewn ysgolion er mwyn caniatáu iddynt recriwtio a defnyddio mwy o bobl i helpu dysgwyr wrth roi sylw i'w hanghenion yn dilyn yr argyfwng COVID-19 cychwynnol a'r cyfnod pan oedd ysgolion ar gau.*
- 2.3 *Prif ddiben y cyllid felly yw galluogi buddsoddiad mewn ysgolion i ganiatáu iddynt recriwtio a defnyddio mwy o bobl i helpu dysgwyr wrth roi sylw i'w hanghenion yn dilyn yr argyfwng COVID-19 cychwynnol a'r cyfnod pan oedd ysgolion ar gau.*

2.4 Mae pob disgybl yn gymwys i dderbyn cymorth ychwanegol wrth ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, er y bydd cwmpas y cymorth angenrheidiol yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol. Gan fod adnoddau yn gyfyngedig, byddwn yn blaenoriaethu fel a ganlyn wrth gynllunio dyraniad yr adnoddau:

**Carfannau â blaenoriaeth i gael cymorth:**

2.5 Mae'r cyllid i'w dargedu at garfannau penodol sydd wedi'u nodi fel y rhai mwyaf agored i niwed, fel a ganlyn:

1. Disgyblion sy'n paratoi ar gyfer arholiadau yn y flwyddyn academaidd nesaf (sef disgyblion blynyddoedd 11, 12 ac 13).
2. Disgyblion agored i niwed a difreintiedig, yn unol â diffiniad amrywiol ddulliau gweithredu.
3. Blwyddyn 7, yn sgil yr amharu wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

2.6 Mae'r carfannau penodol yma yn awgrym o'r hyn y bydd penaethiaid yn ei ystyried wrth ddsbarthu cymorth. Er bod y fformiwla cyllido yn seiliedig ar garfannau penodol o ddysgwyr, disgwylir i'r cyllid gael ei ddefnyddio i sicrhau bod unrhyw ddysgwyr sydd angen cymorth yn cael cyfle i dderbyn y cymorth hwnnw lle bynnag y bo'n bosibl. Felly nid yw wedi'u gadw yn ôl at ddefnydd y tri grŵp â blaenoriaeth a restrir ym mhwyntiau 1-3 yn unig, ac fe ddylid ei ddefnyddio i ganiatáu mynediad at gymorth lle bo angen i blant sydd wedi dioddef effaith amrywiol agweddau o'r pandemig.

2.7 Gan y bydd unigolion nad ydynt wedi'u rhestru yn y 3 grŵp â blaenoriaeth hefyd angen cymorth, mae'n egwyddor bwysig caniatáu i Benaethiaid gael ymreolaeth wrth benderfynu pa grwpiau neu unigolion y maent am eu helpu fel rhan o'u cynlluniau ysgol unigol.

**Cymorth i'w Ddarparu**

2.8 Diwygio'r cwricwlwm yw ein prif flaenoriaeth o hyd ar gyfer addysg yng Nghymru. Yn unol â hynny, bydd y Rhaglen hon yn canolbwyntio ar gymorth ar gyfer y canlynol:

- Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol o fewn cwricwlwm eang a chytbwys – ar gyfer y blynyddoedd arholiadau bydd hyn yn cynnwys sgiliau darllen ac ysgrifennu uwch, sgiliau mathemateg lefel uwch lle bo'n berthnasol, a chymhwysedd digidol ar lefel briodol ac fel y bo'n berthnasol i ddysgwyr sy'n symud ymlaen gyda'u cymwysterau.
- Datblygu sgiliau dysgu annibynnol, i alluogi ac ysgogi dysgwyr ym mhob grŵp i symud ymlaen yn gynt drwy weithio'n fwy effeithiol wrth eu hunain ac allan o'r ysgol.

- *Cefnogi ac ennyn diddordeb drwy goetsio – mewn cydnabyddiaeth y bydd y dysgwyr sydd wedi ymddieithrio fwyaf angen hyfforddiant a chymorth emosiynol yn ogystal â chymorth ar gyfer paratoi ar gyfer arholiadau a sgiliau.*

**Beth y dylid defnyddio'r cyllid i'w ddarparu:**

2.9 *Mae'r grant hwn yn rhoi adnoddau ariannol penodol i greu capasiti newydd yn y system addysg.*


- *Gall ysgolion benodi Athrawon Cymwys gan gynnwys Athrawon Newydd Gymhwys, Cynorthwyr Addysgu a rolau cynorthwyol eraill i'r ysgol (er enghraifft rolau sydd wedi'u llunio i ddarparu cymorth coetsio), yn unol â dealltwriaeth yr ysgol o anghenion y dysgwyr.*
- *Gall y capasiti newydd fod yn llawn amser neu ran amser, neu gynydd mewn oriau ar gyfer contract presennol lle mae'r sgiliau hynny yn angenrheidiol.*
- *Gall cydweithwyr newydd weithio ar draws mwy nag un ysgol lle mae clystyrau o ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth gydweithredol.*
- *Gall penaethiaid benodi athrawon newydd i'r ysgol er mwyn rhyddhau athrawon presennol sy'n adnabod eu disgyblion orau i weithio gyda nhw i gyflymu eu cynnydd (gan lenwi eu swyddi arferol dros dro).*
- *Bydd angen i sgiliau cydweithwyr newydd adlewyrchu anghenion grwpiau a dysgwyr.*
- *Bydd y model cyflawni y bydd cydweithwyr newydd yn gweithio oddi mewn iddo yn benodol ar gyfer anghenion yr ysgol a'i dysgwyr.*

**3. Faint o arian mae ysgolion Gwynedd wedi'i dderbyn?**

3.1 Mae dyraniad y Grant Rhaglen Dysgu Carlam wedi cyrraedd ysgolion mewn dau 'tranche', Medi 2020 a Mawrth 2021, gyda'r cyfanswm cenedlaethol sydd wedi ei ddyrannu yn £29 miliwn a £33 miliwn. Mae cyfanswm yr arian sydd wedi ei neilltuo i ysgolion Gwynedd oddeutu £2,220,440. Mae'r dyraniadau fesul sector ysgol i'w gweld yn **Atodiad 1**

**4. Cynllunio Grantiau ac arfarnu effaith**

4.1 Mae'n ddisgwyliedig bod gan bob ysgol gynllun gwariant ar gyfer y grantiau. Er mwyn cefnogi ysgolion i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwariant y grantiau, mae GwE wedi llunio Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau Rhanbarthol.



4.2 System yw hon sydd yn helpu ysgolion i gynllunio y defnydd o grantiau gan gynnwys y Grant Dysgu Carlam. Mae'r Dangosfwrdd yn rhoi cyfansymiau o'r grantiau a ddyfernir i'r ysgolion yn y flwyddyn ariannol a cheir cysylltiadau at ddogfennau canllaw perthnasol a thelerau ac amodau'r grantiau. Mae adran arfarnu ar y Dangosfwrdd i'r Pennaeth, Cynrychiolydd o'r Corff Llywodraethol a'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant i gymeradwyo'r cynlluniau. Yn ogystal, mae modd crynhoi'r wybodaeth sydd yn y Dangosfwrdd fel y gellir ei rannu â llywodraethwyr a chymuned ehangach yr ysgol.

4.3 Ar gyfer 2020/21 roedd defnyddio'r Dangosfwrdd yn ddewisol i ysgolion. Mae bron pob un yn y cynradd wedi dechrau ei ddefnyddio, gyda mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn defnyddio'r Dangosfwrdd a'r gweddill cynllunio yn defnyddio'u templedi eu hunain.

4.4 Dyma un enghraifft o sut mae cynllunio ar y Dangosfwrdd yn edrych i ysgol unigol:

Enw'r Ysgol	RHAGLEN DYSGU CARLAM (RhDC) 2020/21					Cyfanswm Grant (£) ⚠	
	Nifer Disgyblion wedi'u cynwyo	Meysydd Cymorth	Braslun o ddatrasiad cwricwlwm a gynigir	Datrasiadau staffio a gynigir	Math cynhwysedd	Grant yn weddill (£)	
Carfanau Blaenoriaeth						Amserlen	Math o variant
						0	Hyd a+

Mae'r colofnau a'r dewisiadau yn unol â chanllawiau'r grant gan adael i ysgol ddewis o'u plith a chynnig naratif eu hunain am y gwariant penodol.

4.5 Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gweithio efo ysgolion i arfarnu effaith y grantiau. **Unwaith y bydd ysgolion wedi cael y cyfle i ddefnyddio'r grant yn llawn byddant mewn sefyllfa aeddfetach i fesur ei effaith.**

## 5. Cynlluniau Ysgolion

### Cynlluniau Dysgu Carlam Ysgolion Cynradd

- 5.1 Mae cynlluniau pob ysgol ar gyfer recriwtio staff er mwyn cynnal rhaglenni ymyrraeth i adfer a chodi safonau.
- 5.2 Yn ymarferol mae'r ysgolion wedi defnyddio'r cyllid ar gyfer un, neu gymysgedd o'r dulliau dros dro yma:
- Cynyddu oriau cymorthyddion rhan amser sydd ar staff yr ysgol yn barod
  - Cynyddu oriau athrawon rhan amser sydd yn yr ysgol yn barod
  - Recriwtio cymorthyddion newydd yn rhan neu lawn amser
  - Recriwtio athrawon (llanw) yn rhan neu lawn amser
- 5.3 Eto yn gyffredinol, roedd yn anodd i ychydig o ysgolion ddarganfod cymorthyddion newydd ac roedd amharoddrwydd dealladwy a chyfyngiadau swigod yn ei gwneud yn anodd i ychydig o ysgolion fod yn tynnu gweithwyr newydd i ysgol. Mae prif wariant yr arian felly wedi bod ar gynyddu oriau staff mewnol ysgolion.
- 5.4 Defnyddiwyd staff neu'r oriau ychwanegol yma i'r cymorthyddion neu'r athrawon unai fod yn gweithio gyda grwpiau penodol o ddisgyblion neu i fod yn rhyddhau aelodau eraill o'r staff i wneud hyn.
- 5.5 Er mwyn adnabod disgyblion i fod yn derbyn ymyrraeth drwy'r rhaglen yma mae pob ysgol yn adnabod eu disgyblion bregus a'r rhai ac anghenion drwy brosesau arferol. Fe wnaeth bron pob ysgol hefyd asesu eu disgyblion yn gynnar ym Medi 2020 gan adnabod disgyblion ble 'roedd eu sgiliau iaith a mathemateg wedi llithro. Lluniwyd grwpiau ymyrraeth yn bron pob ysgol i roi cymorth adfer i'r disgyblion yma.
- 5.6 Mae'r cynlluniau yn adnabod nifer o ymyraethau gwahanol. Gwnaed ddefnydd da iawn gan lawer o ysgolion o adnoddau Dysgu Carlam GwE a'r gwaith ymchwil i'r ymyraethau mwyaf effeithiol.

### Cynlluniau Dysgu Carlam Ysgolion Uwchradd

- 5.7 Yn gyffredinol, mae'r ysgolion wedi blaenoriaethu'r arian ar gyfer carfanau o ddisgyblion penodol megis disgyblion sydd yn paratoi am arholiadau (bl.11,12,13), plant bregus a difreintiedig, blwyddyn 7 ac unrhyw grwpiau penodol neu unigolion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r meysydd cymorth sydd wedi eu targedu yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, datblygu sgiliau dysgu annibynnol ac ymgysylltu drwy hyfforddi.
- 5.8 Mae creadigrwydd ar draws yr ysgolion o ran y datrysiadau sydd wedi cael eu mabwysiadu gydag un ysgol uwchradd er enghraifft wedi:

- cefnogi ac annog disgyblion bl.11 a adnabuwyd i dderbyn cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod clo drwy benodi anogwyr dysgu digidol er mwyn sicrhau parhad i'r dysgu;
- penodi athro ychwanegol i gynnal sesiynau llythrennedd a rhifedd i grwpiau penodol o ddisgyblion oedd angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod clo;
- penodi arweinydd ar gyfer Rhaglen Dysgu Carlam traws ysgol er mwyn cynllunio cefnogaeth bellach i'r disgyblion a chefnogi'r UDRh gyda darpariaeth ysgol gyfan.

- 5.9 Mae enghreifftiau eraill ble gwelwyd un ai cynyddu amser neu benodi cymorthyddion / mentoriaid o'r newydd ar gyfer sesiynau mentora a dal fyny. Y prif ffocws yma oedd i sicrhau cefnogaeth a chynhaliaeth briodol i ddisgyblion sydd wedi eu dadrithio o addysg yn ystod y cyfnod clo fel y gallent ddal i fyny gyda chyfoedion.
- 5.10 Mae'r defnydd o'r grant ar gyfer targedu disgyblion ôl-16 wedi bod yn debyg i'r uchod gyda'r ffocws ar gefnogi disgyblion gyda'u dysgu, a chyfran o'r arian hefyd wedi ei ddefnyddio i bwrpas safoni a chymedroli graddau asesu canolfan. Mae rhai ysgolion wedi targedu ymyrraeth benodol i ddisgyblion bl.12 a 13 sydd wedi eu hadnabod i dderbyn cefnogaeth ychwanegol drwy benodi anogwyr dysgu a chymorthyddion i'w cefnogi.
- 5.11 Ceir enghraifft arall ble ymatebwyd i'r pryder o golli amser dysgu trwy ychwanegu gwersi ar amserlenni bl.12 a 13 ar ôl iddynt ddychwelyd i safle'r ysgol. Gwnaed hyn drwy benodi staff ychwanegol i ddysgu yn CA3 fel bod modd rhyddhau a defnyddio staff arferol CA5 i roi mwy o wersi UG / Lefel A.

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi  
 Grantiau COVID i fyd addysg i gynorthwyo disgyblion  
 10 Mehefin 2021

Grantiau COVID i fyd addysg i gynorthwyo disgyblion

	Swm cenedlaethol	Grant	Cyfanswm Ysgolion Cynradd Gwynedd	Cyfanswm Ysgolion Dilydol Gwynedd	Cyfanswm Ysgolion Uwchradd Gwynedd	Cyfanswm Ysgolion Arbennig Gwynedd	Cyfanswm Gwasanaethau Canolog (EOTAS a Meithrin)	Cyfanswm Gwynedd	Nodiadau
1	£29 miliwn	Rhaglen Dysgu Carlam (Medi 2020)	£547,178	£68,642	£380,672	£11,138	£2,014	<b>£1,009,644</b>	Arian yn llithro i dymor Haf 2021
2	£33 miliwn	Rhaglen Dysgu Carlam (Mawrth 2021)	£731,852	£76,558	£391,259	£13,141	£134,195	<b>£1,347,005</b>	
3		6ed - Cyllid Ychwanegol Dal Fyny		£9,102	£124,734			<b>£133,836</b>	
4	£4.177 miliwn	Rhaglen Dysgu Carlam blynyddoedd arholiadau		£12,686	£138,628			<b>£151,314</b>	
5	£4.069 miliwn	Grant Pontio blynyddoedd 11 , 12 a 13		£131,188				<b>£131,188</b>	Grant Haf 2021



## Rhaglen Waith Ddrafft Craffu 2021/22

### PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

<b>10/06/2021</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Y Gymraeg ym myd Addysg gan gynnwys y Canolfannau Iaith</li><li>• Grantiau i fyd addysg i gynorthwyo disgyblion</li><li>• Cinio ysgol</li></ul>
<b>21/10/2021</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Gagendor Lles , gan gynnwys<ul style="list-style-type: none"><li>➢ effaith covid <u>ar addysg</u> ein holl ddisgyblion</li><li>➢ pa gynlluniau sydd gan ysgolion o ran llesiant ein holl ddisgyblion</li></ul></li><li>• Fframwaith Adfywio</li></ul>
<b>09/12/2021</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Lefel diweithdra a chefnogaeth nol i swyddi</li><li>• Adroddiad blynyddol Addysg</li></ul>
<b>08/02/2022</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Cefnogaeth i fusnesau</li><li>• Cwricwlwm newydd i Gymru gan gynnwys rhoi sylw i addysg awyr agored</li></ul>
<b>31/03/2022</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru</li><li>• Twristiaeth gynaliadwy</li></ul>